

23. Baban yn y Tŷ

CYMERIADAU

- NAIN
- TOM – gŵr Marged
- NON – y plentyn lleiaf
- SIÔN CORN
- TAID
- HEFIN – plentyn
- JO – y llanc
- MARGED – eu merch
- SIWAN – plentyn
- MARIA – gwraig Jo

Mae'r ddrama hon yn wahanol i ddramâu Nadolig arferol ac yn ddefnyddiol oherwydd nad oes angen llawer o wisgoedd. Mae synau'n bwysig drwy'r ddrama ond gellir recordio rhai o'r synau, megis baban yn crio neu gi'n cyfarth. Yn yr olygfa stryd, byddai sŵn tylluanod yn y cefndir yn effeithiol.

GOLYGFA 1

Cegin mewn tŷ fferm yn uchel yn y mynyddoedd. Mae'r ystafell yn gynnes a chlyd a'r bwrdd yn llawn o offer coginio. Mae llond plât o fins peis ar y bwrdd. Mae NAIN wrthi'n coginio gyda'i dwylo mewn powlen. Daw MARGED i mewn wedi'i gwisgo'n gynnes ac yn cario basged siopa.

NAIN: *[Gan edrych i fyny o'i gwaith]*

Rwy'ti'n edrych yn oer! Ydy hi mor oer â hynny?

MARGED: Mae'n rhewi!

[Mae'n tynnu ei menig ac yn agor ei chôt gan roi ei basged neges yn y gornel. Mae'n eistedd gan ochneidio]

O! Y siopa munud ola 'ma! Dwi'n meddwl o ddifri weithiau a ydy o werth y drafferth. Yr holl redeg o gwmpas 'ma i gael bwyd ac anrhegion – mae'n gneud i rywun anghofio gwir ystyr yr Ŵyl.

NAIN: Dwi wedi deud hynny ers blynnyddoedd. Tydi hi ddim yn Ddolg go iawn os nad oes babi yn y tŷ.

MARGED: O Mam! Peidiwch â chychwyn ar hynny eto! Dwi'n gwybod y byddech chi'n hoffi cael Pat, Alwyn a'r babi yma hefyd, ond rydach chi'n gwybod fod rhaid iddyn nhw fynd at chwaer Pat dros y Dolig 'leni.

NAIN: Ie, dwi'n gwybod. Fi sy'n hunanol rŵan. Ond, dwi wedi gneud y gwely a'r cot yn barod rhag ofn. Gyda llaw, lle mae'r plant gen ti?

MARGED: Wedi mynd â mins peis i Miss Griffith maen nhw. Tydi hi ddim yn medru coginio cymaint ag yr oedd hi erbyn hyn.

NAIN: Rwy'n siŵr y bydd hi'n eu gwerthfawrogi nhw. Fydd hi ddim ei hun diwrnod Dolig na fydd? Fysa hi'n gallu dod yma atom ni.

MARGED: Na. Mae'n iawn. Mae'n mynd i'r Rheithordy am y diwrnod.

NAIN: Da iawn! Dwi ddim yn hoffi meddwl am unrhyw un ar ei ben ei hun ddiwrnod Dolig o bob diwrnod. Fe gawn ni hwyl fory, gyda chdi a Tom a'r plant.

[*Mae hi'n tynnu ei dwylo o'r fowlen*]

Dyna ni rŵan. Be am baned?

GOLYGFA 2

Stryd y pentref. Mae HEFIN, SIWAN a NON yn llusgo eu traed ar ôl danfon y mins peis.

NON: Dwi'n hoffi Miss Griffith. Mae'n glên.

HEFIN: Ydy, tydi? Tydi hi ddim yn rhedeg o gwmpas yn glanhau drwy'r amser a tydi hi ddim yn disgwyl i ni eistedd fel sowldiwers drwy'r amser!

SIWAN: Na'di – mae'n braf yn ei thŷ hi!

NON: Edrychwch ar y sêr! 'Sgwn i pa un ddilynodd y gwŷr doeth? [*Gan bwyntio*]
Efallai mai'r un fawr acw oedd hi.

HEFIN: Yn ôl Dad, 'ci' 'di enw'r seren yna!

NON: Efallai mai honno ydy hi, wyddoch chi ddim.

SIWAN: Roedd honno'n arbennig iawn.

HEFIN: Wrth gwrs, ac mae hi wedi mynd rŵan.

[*Mae'n ddistaw am funud, yn feddylgar*]

'Sgwn i a ddigwyddodd y cwbl go iawn? Y bugeiliaid, y gwŷr doeth a'r angylion.

NON: [*Wedi'i synnu*] O Hefin, wrth gwrs 'i fod o wedi digwydd! Mae'n deud yn y Beibl!

HEFIN: Ydy, dwi'n gwybod, ond mae o fel chwedl. Fe ddigwyddodd o mor bell yn ôl ac mae pethau wedi newid – yn union fel mae bugeiliaid wedi newid yn ein dyddia' ni.

SIWAN: Be wyt ti'n feddwl?

HEFIN: Mae Dad a Taid yn fugeiliaid ond dydyn nhw ddim yn gwylio'u defaid i fyny fan acw!

[*Gan bwyntio i'r bryniau uchel uwchben y pentref*]

Fysan nhw wedi marw o'r oerfel a fysa'n rhaid i dîm achub ddod â nhw i lawr. Mae Dad yn deud fod 'na eira ar y Foel.

SIWAN: Rwyd ti'n wirion, Hefin! Cafodd Iesu ei eni ym Mhalesteina ac mae'n boeth yn fanno. Beth bynnag, does 'na ddim anifeiliaid gwyllt ar y Foel, dim ond y gylfinir a'r grug.

HEFIN: Dwi'n gwybod hynny, ac am fod pethau wedi newid cymaint, mae'n anodd credu'r hanes. Mae o fwy fel chwedl. Dwi ddim yn deud nad ydy o wedi digwydd!

NON: [*Yn ddiamynedd*] Wrth gwrs ei fod o wedi digwydd! 'Drychwch! Mae'r golau yn yr eglwys. Be am fynd i edrych ar y preseb?

HEFIN: O'r gorau. Dewch.

GOLYGFA 3

Maen nhw'n mynd i mewn i'r eglwys yn ddistaw. Mae'r preseb yn ei le. Mae'r plant yn edrych i mewn gan sibwrdd yn gyffrous wrth edrych ar y ffigurau. Wrth i'r drws agor maen nhw'n codi eu pennau yn ofnus ac mae JO a MARIA yn dod i mewn. Mae JO yn cario bag trwm a MARIA'n gafael mewn baban wedi'i lapio'n gynnes mewn siôl. Maen nhw'n eistedd yn un o'r seddau gan edrych yn anobeithiol ar ei gilydd. Mae'r plant yn sibwrdd.

SIWAN: Pwy ydy'r rhain? Dwi ddim wedi'u gweld nhw o'r blaen.

HEFIN: Na finna chwaith.

NON: Maen nhw'n edrych yn oer ac yn drist. Be fedran ni'i wneud?

SIWAN: Gofyn be fedran ni ei wneud i'w helpu, siŵr iawn. Dydyn nhw ddim yn gwybod ein bod ni yma. Dowch!

[*Mae'r plant yn mynd draw at y teulu sy'n dychryn wrth eu gweld. Mae Maria'n edrych arnynt*]

MARIA: Mae'n siŵr eich bod chi'n mynd i ddeud nad ydan ni fod 'ma – iawn felly, fe awn ni!

[*Mae'n gafael yn dynn yn ei baban ac yn sefyll ar ei thraed*]

SIWAN: O na! Nid dyna'r oeddan ni'n ei feddwl! Dydan ni ddim isio i chi fynd!

HEFIN: All neb wneud i chi fynd allan o'r eglwys beth bynnag. Mae'n lle arbennig ac yn lle i bawb.

NON: Tŷ Duw ydy'r eglwys, ac mae Duw'n caru pawb. Meddwl eich bod chi'n edrych yn drist oeddan ni a dyna pam ddaethon ni yma i weld a allwn ni wneud rhywbeth i'ch helpu chi.

[Mae MARIA'n eistedd eto ac yn edrych ar JO]

JO: Gweld y golau tu mewn wnaethon ni. Mae gynnwys ni 'chydig o broblem – efallai y gallech chi ein helpu ni. Mae'n rhaid i ni fynd i Lundain heno – ydach chi'n gwybod am fws neu drên sy'n mynd o fa'ma?

HEFIN: Na, sori, does 'na ddim bws na thrên arall yn mynd heno.

MARIA: Ond mae'n rhaid i ni fynd! Does gynnwys ni ddim lle i aros! Be wnawn ni?

[Mae hi'n dechrau crio ac mae JO yn ei chysuro]

SIWAN: Peidiwch â chrio. Dwi'n siŵr y gallwn ni feddwl am rywbeth. Gadewch i mi gymryd y baban am funud.

[Mae hi'n cymryd y baban ac yn ei anwesu]

O! Mae o'n ddel, yn tydi! Be ydy ei enw?

MARIA: Nicolas – dim ond mis oed ydy o. Roedd rhaid i ni adael ein cartref yn Llundain ar frys. Mae gen i fodryb sy'n byw yn Aberystwyth, felly roeddwn ni wedi trefnu mynd yno i aros, ond ...

[Mae JO'n mynd ymlaen â'r stori]

JO: Wedi i ni gyrraedd Aberystwyth aeth modryb Maria'n sâl ac roedd rhaid iddi fynd i'r 'sbyty. Roedd ei ffrindiau'n glên iawn, ond doedden ni ddim eisiau eu poeni nhw, felly dyma ni'n dal bws, gan feddwl ei fod o'n mynd i'r Amwythig, ond roeddwn ni ar y bws anghywir, a dyma ni wedi cyrraedd yma!

[Mae MARIA'n dechrau crio ac mae'r plant yn edrych ar ei gilydd. Mae NON yn neidio ar ei thraed]

NON: Dwi newydd gael syniad! Fedrwn chi aros yn fferm Taid. Mae 'na ddigon o le yno a fydd dim rhaid i chi gysgu efo'r gwartheg, na dim byd felly; mae gan Nain got.

JO: [Yn ddryslyd] Cysgu efo'r gwartheg?

SIWAN: Be wyt ti'n feddwl, Non?

NON: Wel, mae'n debyg iawn i hanes Mair a Joseff ac mae hi'n noswyl Nadolig. Doedd ganddyn nhw ddim lle i fynd chwaith!

MARIA: Fedrwn ni ddim.

JO: Na fedrwn wir. Tydach chi ddim yn ein 'nabod ni!

NON: Roedd Iesu'n ddieithryn hefyd. Mae'n rhaid i chi ddod!

SIWAN: O ie, dowch! Mae Nain yn hynod o garedig!

HEFIN: Ac mae hi'n gneud mins peis hyfryd.

JO: O'r gorau – ond gawn ni weld be fydd eich teulu'n ei ddeud ...

SIWAN: O dowch yn eich blaenau! Fe fydd yn iawn!

GOLYGFA 4

Cegin fferm. TAID a TOM yn eistedd yn gyfforddus yn darllen papurau newydd. Mae MARGED a NAIN yn rhoi'r addurniadau olaf ar y deisen Nadolig. Mae TAID yn rhoi ei bapur i lawr.

TAID: Mae'n amser i'r plant ddod adref.

TOM: Roeddwn i'n meddwl hynny hefyd! Lle aethon nhw, Marged?

MARGED: I weld Miss Griffith, ond mae hynny oriau yn ôl bellach.

TAID: [*Gan estyn ei sgidiau glaw*] Dwi am fynd allan i weld a wela i nhw.
[*Sŵn lleisiau wrth i'r plant agosáu. Mae'r babi'n crio a'r ci'n cyfarth*]

NAIN: Dwi'n siŵr 'mod i wedi clywed sŵn babi'n crio rŵan.
[*Mae'r plant yn dod i mewn a phawb yn siarad ar draws ei gilydd. Daw JO a MARIA i mewn ar eu holau, gan edrych yn ofnus. Mae MARIA'n cymryd y babi oddi ar SIWAN, ac mae'n ei dawelu. Mae TOM yn sefyll ar ei draed er mwyn tawelu'r plant*]

TOM: Bobl annwyl, tewch! Fedrwn ni ddim deall 'run gair a chithau'n gweiddi ar draws eich gilydd.
[*Mae'r plant yn distewi. Mae TAID yn troi at JO*]

TAID: Tydw i ddim yn gwybod pwy ydach chi, ond mae'n well i chi eistedd. [*Mae'n gwenu ar MARIA*] A chithau 'merch i. Fedrwch chi ddim sefyll a gafael mewn babi. [*Maen nhw'n eistedd*] Dyna welliant. Rŵan 'ta, dywedwch eich hanes.

JO: Jo ydw i a dyma Maria fy ngwraig, a Nicolas fy mab.

NON: Joseff a Mair dybiwn i!

MARGED: Paid â siarad ar draws, Non!

JO: Roeddwn ni'n byw yn Llundain, mewn fflat, a'r perchennog yn byw yn y fflat oddi tanom. Doedd o ddim yn lle neis iawn ond yn ddigon da nes i Nicolas gyrraedd. Yna, deudodd y perchennog wrthon ni am symud allan er mwyn iddo gael y fflat i'w fab!

NAIN: Dim lle i'r baban? Fe ddigwyddodd hynny o'r blaen, amser maith yn ôl.

- MARIA: Mae 'na fwy i'r stori na hynny – roedd o am gael gwared ohonon ni am nad oedd o'n hoffi plant!
- JO: Yna, fe gaeodd y ffatri ac felly doedd gen i ddim gwaith. Ysgrifennais at fodryb Maria yn Aberystwyth ac mae hi wedi bod yn garedig iawn â ni. Roeddwn wedi gobeithio cael gwaith yno, ond aeth pethau o chwith. Bu'n rhaid i fodryb Maria fynd i'r ysbyty ac felly dyma ni'n penderfynu mynd yn ôl i Lundain a cheisio aros gyda ffrindiau.
- MARIA: Mae'n rhaid ein bod ni wedi dal y bws anghywir, oherwydd rydan ni wedi cyrraedd yma! Doeddwn ni ddim yn gwybod be i'w wneud nesa, pan welson ni'r golau yn yr eglwys a phenderfynu mynd i mewn i gael meddwl be i'w wneud. Yna, daeth y plant aton ni a deud y bydden ni'n cael aros yma ...
- JO: Ond fedrwn ni ddim disgwyl llety gennych chi – dieithriaid ydan ni.
- TAID: Dwi'n gwybod hynny, ond fedrwch chi ddim crwydro'r strydoedd gyda baban bach. Wrth gwrs, fe gewch chi aros yma am 'chydig ddyddiau.
- NAIN: Croeso i chi. Rwy'n credu eich bod wedi'ch anfon atom heno. Roedden ni wedi gobeithio cael ein hŵyr bach yma gyda ni ond doedden nhw ddim yn gallu dod. Roeddwn yn siomedig iawn gan mai 'baban' ydy calon y Nadolig. Rŵan, cawn gwmni eich babi chi ac mae popeth yn barod.
- MARIA: Rydach chi'n garedig iawn!
- JO: Fe dalwn ni'n ôl i chi ryw ddydd.
- TAID: Peidiwch â phoeni am hynny. Mae'n siŵr eich bod eisiau bwyd.
- MARGED: Mae'n rhaid i ni fynd adref. Mae'n amser gwely.
- TOM: Dewch blant, mae Pero wedi blino aros. Nos da, bawb! Nadolig Llawen!
- MARGED: Welwn ni chi fory.

GOLYGFA 5

Ystafell y merched. Maen nhw yn eu dillad nos. Mae'r drws yn agor yn ddistaw a daw HEFIN i mewn – yntau yn ei ddillad nos.

- HEFIN: [*Gan ddod i'r ystafell*] Be ydach chi isio? Os glywith Dad rywbeth fydd 'na goblyn o le 'ma!
- SIWAN: Mae'r teledu ymlaen – glywan nhw ddim. Syniad Non oedd o, beth bynnag.
- HEFIN: Dwi'n siŵr.
- NON: Wel! Mae o'n bwysig. Dwi wedi bod yn meddwl am Nicolas druan yn nhŷ Nain – fydd o ddim yn cael anrhegion Nadolig. Fydd Siôn Corn yn meddwl ei fod o dal yn Llundain.

- HEFIN: Ydach chi wedi fy nhynnu fi allan o'r gwely i ddeud hynna? Tydi o ddim digon hen i wybod dim am y Nadolig. Dim ond un bach ydy o.
- NON: [*Bron â chrio*] Hen hogyn cas wyt ti, Hefin! Mae o dal eisiau rhywbeth bach, hyd yn oed os mai un bach ydy o.
- HEFIN: Dwi ddim yn gas. Synnwyr cyffredin ydy o! Be fedrwn ni neud beth bynnag?
- SIWAN: Fe ddylai gael anrheg. Roedd Iesu'n anrheg i ni ac aeth y doethion â ...
- NON: [*Gan dorri ar draws*] Dwi ddim yn meddwl eu bod nhw'n ddoeth o gwbl – roeddau nhw'n wirion. Meddyliwch, mynd â photelaid o bersawr i fabi bach!
- HEFIN: Fe aethon nhw ag aur hefyd. Mae hynny'n werth llawer o bres.
- NON: Tydi babi bach ddim eisiau pres – cariad mae o ei angen. Does dim pwynt bod yn gyfoethog os nad oes 'na neb yn eich caru chi. Dwi am roi fy nhedi bach i Nicolas. A dwi am 'sgwennu nodyn i Siôn Corn i ofyn a wnaiff o fynd â'r tedi iddo fo. Mae Mam bob amser yn gadael mins peis iddo fo. Fe ro i'r tedi a'r nodyn ar y bwrdd.
- SIWAN: Ond dy dedi newydd di ydy o. Chdi brynodd o efo dy bres dy hun.
- NON: Ie! Dwi'n gwybod, ond dwi am i Nicolas ei gael o. Fe alla i gadw fy mhres i gael un arall. Does dim ots.
- [*Mae'n dechrau ysgrifennu*]
- HEFIN: Dwi'n siŵr y bydd Nicolas yn ei hoffi ond fe fyddai'n well i ti frysio. Dwi'n mynd yn ôl i'r gwely.
- [*Mynd allan*]

GOLYGFA 6

Gellir canu carol tra bo'r olygfa yn troi'n gegin. Ar y bwrdd, mae llond plât o fins peis, tedi bach a nodyn. Daw SIÔN CORN i mewn yn cario sach.

- SIÔN CORN: [*Gan weld y mins peis*] Ho! Ho! Be wela i yma? Mins peis! Rhai neis hefyd.
- [*Mae'n rhoi ei sach i lawr a symud at y bwrdd lle mae'n gweld y tedi a'r nodyn*]
- SIÔN CORN: Rŵan 'ta, be 'di hwn? Llythyr i fi. Gadewch i ni weld.
- [*Mae'n agor y llythyr ac yn ei ddarllen yn uchel*]

“Annwyl Siôn Corn,

Mae babi bach yn aros yn nhŷ Nain. Mae'n siŵr nad oes dim yn eich sach iddo gan mai heno y cyrhaeddodd. Os gwelwch chi'n dda, wnewch chi roi'r tedi yma iddo.

Cofion,
Non.”

Wel, wel, wel, ei thedi bach hi ei hun – am syniad caredig. Mae'r ferch yma'n haeddu gwobr – rŵan, gadewch i mi weld.

[Mae SIÔN CORN yn cau'r llythyr a'i roi yn ei boced ac yn cymryd mins pei. Mae'n cymryd tamaid mawr]

Mm! Mm! Mm! Neis iawn! Rŵan 'ta, lle roeddwn i? O! Ie, gwobr i Non – gadewch i ni weld be sydd yn yr hen sach 'ma.

[Mae'n codi ei sach ac yn mynd allan]

GOLYGFA 7

Ben bore wedyn. Mae'r plant yng nghanol eu hanrhegion a phapur ym mhob man. Mae NON yn cymryd un anrheg.

NON: Tydw i ddim wedi agor hwn. Mae 'na lythyr arno.

[Mae'r lleill yn edrych ar y parcel]

SIWAN: Dwi ddim yn nabod y sgrifen. Tydi o ddim yn deud 'I Non' arno.

HEFIN: Agor o 'ta!

[Mae NON yn agor y parcel – sef boc o felysion ac mae'n darllen y nodyn yn uchel]

NON: “Annwyl Non,
Dwi newydd weld dy nodyn ac wedi rhoi'r tedi i Nicolas. Dyma anrheg arbennig i ti am beidio â bod yn hunanol. Dwi'n gwybod y cei di Nadolig Llawen am dy fod wedi darganfod y gyfrinach.
Pob bendith,
Siôn Corn.”

NON: Be mae o'n ei feddwl?

HEFIN: Dwn i ddim. Gofyn i Mam.

[Mae o'n stopio, ac yna'n cychwyn siarad yn araf bach]

Dwi wedi bod yn meddwl. Dwi'n dechrau credu ei fod o wedi digwydd – y bugeiliaid a'r gwŷr doeth.

SIWAN A NON: Wrth gwrs ei fod o!

DIWEDD